

Cân Llyfrau'r Beibl

(tôn: Llwyn Onn)

Mae Genesis, Exodus, yna Lefiticus,
Numeri, Deut'ronomium a Josua'n ei dro,
A Barnwyr, Ruth, Samuel, Brenhinoedd a'r Cronicl,
Esra a Nehemeia ac Esther a Job.
Yna'r Salmau a'r Diarhebion, Pregethwr a Chaniad Solomon,
Eseia a Jeremeia, Galarnad mor drist,
Eseciel a Daniel, Hosea a Joel,
Ac Amos ac Obadeia a Jona, gwael dyst.
Dyma Micha a Nahum nesa,
A Habacuc a Seffaneia,
A Haggai a Sechareia a Malachi'n cloi;
A dyma holl lyfrau'r Hen Destament, ffrindiau,
Ymlaen heibio i'r Apocryffa awn heb ymdroi!

(tôn: Gwyr Harlech)

Mathew, Marc a Luc heb ysbaid,
Ioan, Actau a Rhufeiniaid,
Yna mae Corinthiaid a Galatiaid ar eu hyd,
Effesiaid a Philipiaid, Colosiad, Thesaloniaid,
Timotheus a Titus a Philemon a Hebrewaid,
Drwy'r llythyrau ola ar ras,
Sef Iago, Pedr, Ioan, Jwdas,
Heb anghofio am Ddatguddiad: dyna'r Beibl i gyd!

geiriau: Cass Meurig